

# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD (2011 - 2026)

## ARCHWILIAD CYHOEDDUS:

### Sesiwn Gwrandawriad 2 - Darpariaeth Tai



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

#### 1. Pwynt Gweithredu 4 (S2/PG4) - Adroddiad Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ar y Cyd (JHLAS)

***Angen cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru ar ddarparu un adroddiad JHLAS ar gyfer ardal y Cynllun i gyd, yn hytrach nag un adroddiad ar gyfer Gwynedd ac un arall ar gyfer Ynys Môn.***

#### 2. Ymateb y Cynghorau

2.1 Mae'r Cynghorau o'r farn y byddai'n briodol paratoi un JHLAS ar gyfer ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Ffafirir hyn dros baratoi astudiaethau ar wahân ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd. Nodir y rhesymau ym mharagraffau 2.2 - 2.3.

2.2 O ystyried mai CDLI ar y Cyd sy'n cael ei baratoi, byddai'n fuddiol cynnal un astudiaeth o ran sicrhau bod strategaeth a pholisïau'r Cynllun yn cael eu monitro'n effeithiol. Nodai paragraff 3.4 NCT 1 bod angen i bob awdurdod cynllunio lleol sydd â CDLI wedi'i fabwysiadu, baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) o'r Cynllun. Nodir y dylai'r AMB asesu i ba raddau mae strategaethau a pholisïau'r CDLI yn cael eu cyflawni ac mae'n rhaid iddynt gynnwys y ffigwr cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerwyd o'r JHLAS cyfredol. Gan mai CDLI ar y Cyd yw hwn, dim ond un AMB fydd angen ei baratoi ar gyfer ardaloedd awdurdod cynllunio Ynys Môn a Gwynedd.

2.3 Pe byddai'r AMB yn adnabod diffyg yn y cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai, dylid ystyried y rhesymau am y diffyg a p'un y dylid adolygu'r CDLI ar y cyd yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol. Felly, er mwyn cefnogi dilysrwydd y Cynllun, byddai'n rhesymegol paratoi un JHLAS.

2.4 Er y dylid cyfleu'r sefyllfa gyffredinol yn seiliedig ar ardal y Cynllun yn ei chyfanrwydd, h.y. un adroddiad JHLAS, mae'r Cynghorau o'r farn y byddai modd iddo hefyd gofnodi'r wybodaeth ar gyfer yr ardaloedd awdurdod cynllunio lleol unigol. Byddai sicrhau gwybodaeth a sylwebaeth ar wahân yn caniatáu ar gyfer adrodd yn fewnol i'r ddau Awdurdod a byddai'n cynorthwyo'r Gwasanaethau hynny (e.e. Tai) nad sydd yn gweithio ar y cyd. Byddai'r dull hwn hefyd yn alinio â'r ffaith bod dau barth amlwg yn ardal y Cynllun o ran lefel a graddfa'r cyflenwad tai a ragwelir. Er nad yw'n amlwg yn fersiwn ddiweddaraf NCT 1 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015, roedd y fersiwn flaenorol (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2006) yn nodi (para. 7.5.1), ble y byddai'r Grŵp Astudiaeth yn cytuno, y gellid cymharu'r tir sydd ar gael â'r galw am dai yn y dyfodol ar sail isranbarthol cyhyd ag y gall yr astudiaeth gyfiawnhau hynny'n llawn. Er y byddai'r ffigwr cyflenwad tir a gyhoeddir yn un ar gyfer ardal y Cynllun yn ei

chyfanrwydd, credir y gellid dangos gwybodaeth benodol ar sail awdurdod cynllunio unigol.